# Pwyllgor y Ty

## Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb ar gyfer 2005-06

### Diben

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Drafft Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb ar gyfer 2005-06 i Aelodau

### Cefndir

Mae'r adroddiad drafft yn Atodiad 1 yn amlinellu'r gwaith yr ymgymerodd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ag ef rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2006 i sicrhau y cynhelir gwaith y Cynulliad gan roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

### Materion

Mewn ymateb i awgrymiadau Aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn eu cyfarfod ar 24 Tachwedd 2005, mae'r adroddiad yn gwahaniaethu'n gliriach rhwng y prosesau a weithredwyd er mwyn sicrhau cydraddoldeb o fewn gwaith Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a'r canlyniadau a ddeilliodd o'r prosesau hyn. Mae'r adroddiad drafft hefyd yn pennu trefniadau clir ar gyfer monitro'n rheolaidd y gwaith yr ymgymerwyd ag ef i hyrwyddo cydraddoldeb ar draws Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ac mae'n darparu gwybodaeth am y cynnydd a wnaed ers diwedd mis Mawrth 2006 a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae enghreifftiau o'r cynnydd a wnaed yn 2005-06 yn cynnwys:

> Datblygu rhaglen allgymorth lleiafrifoedd ethnig arloesol sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o Wasanaeth Seneddol y Cynulliad fel cyflogwr posibl a rhoi canllawiau ar weithdrefnau recriwtio Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
>
> Canolbwyntio mwy ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb o fewn Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad gyda chymorth staff Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
>
> Datblygu trefniadau gweithio hyblyg fel gweithio gartref
>
> Dyfarnu contract i gynhyrchu'r daflen "Llawlyfr y Cynulliad" mewn Iaith Arwyddion Prydain
>
> Sefydlu Grwp Llywio Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb gyda'r Clerc yn cadeirio ac yn gyfrifol am fonitro'r cynnydd a wnaed wrth hyrwyddo cydraddoldeb

ar draws Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

Sefydlu prosiect meithrin gallu ym maes cydraddoldeb gydag aelod o staff amser llawn ar secondiad a recriwtio rheolwr Adnoddau Dynol gyda chyfrifoldeb arbennig dros faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, a hynny yn ogystal â'r gwaith parhaus a gwblhawyd gan gynghorydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â mynediad.

## Cydymffurfio

Mae Pwyllgor y Ty wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros ddarparu cyfleusterau, adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill i Aelodau o dan reol sefydlog 18.2. Wrth gynnal y cyfrifoldeb hwn, dylai'r Pwyllgor roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb sy'n ofynnol o dan adran 48 Deddf Llywodraeth Cymru 1998

## Y Goblygiadau Ariannol

Gellir cwrdd â'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â chwblhau'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb o gyllidebau presennol. Caiff unrhyw gynigion penodol sydd â goblygiadau ariannol ychwanegol eu cyflwyno i Bwyllgor y Ty i'w cymeradwyo.

## Argymhellion

Gofynnir i Aelodau ystyried yr adroddiad drafft. Gellir cynnwys unrhyw sylwadau neu awgrymiadau yn yr adroddiad terfynol a gaiff eu hystyried gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 25 Hydref 2006